Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Trwy ebost

**Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: BGC Blaenau Gwent**

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent a Swyddogion Cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion llesiant drafft. Darganfu fy nhîm bod siarad yn gyson â'ch swyddogion cynorthwyol a chael y cyfle i fynychu cyfarfodydd eich Bwrdd Cyhoeddus (BGC) yn ddefnyddiol iawn ar gyfer deall sut yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'r dull yr ydych wedi ei fabwysiadu at gyfer cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion hyn a gweithredu mewn dull gwahanol. Fel y byddant wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy nghyngor fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod chithau hefyd o'r farn bod y cysylltu cyson rhyngom wedi bod yn ddefnyddiol a'i fod wedi rhoi peth arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Yn eich BGC ar 18 Medi, trafodwyd y themâu lefel uchel canlynol, y mae'r cyngor hwn yn seiliedig arnynt:

- cychwyn gorau mewn bywyd;
- ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw;
- cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a chydnerthedd cymunedol;
- creu llwybr newydd tuag at ffyniant; a
- gwella'r amgylchedd naturiol.

Rwyf yn deall eich bod wrthi'n troi'r themâu lefel uchel hyn yn amcanion BGC dangosol. Yn eu tro maent yn weithrediadau y bydd eich BGC yn eu mabwysiadu i wireddu'r amcanion hyn. Mae angen i'r elfennau hyn weithio gyda'i gilydd fel pecyn cydlynol. Buaswn yn awgrymu bod yr enghreifftiau isod yr ydych wedi eu rhannu gyda fy nhîm yn gynrychiadol o'r mathau o gamau y bydd angen i chi eu cymryd a buaswn yn eich cynghori i weithio ar wneud eich themâu yn amcanion lefel uchel sy'n nodi eich uchelgeisiau parthed y canlyniadau yr ydych yn gobeithio eu cyflawni ym Mlaenau Gwent.

- Datblygu a sefydlu canolfannau llesiant ar draws Blaenau Gwent;
- Hybu newid mewn ymddygiad;
- Ymgodymu ag unigrwydd ac arwahanrwydd drwy…
- Datblygu economi cynaliadwy drwy…
- Gwella ansawdd ar gyfer gwarchod yr amgylchedd naturiol…

Fel y gwyddoch, wrth bennu amcanion drafft a chymryd camau i gwrdd â hwynt, mae'n rhaid i FGCau ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer a macsimeiddio'u cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

cenedlaethol. Mae fy nghyngor mewn dwy ran - y gyntaf, i'ch helpu i ystyried sut y gallech gyflawni hyn yn effeithiol. Mae'r ail, yn seiliedig ar eich themâu a'ch amcanion drafft yn darparu anogaeth, adnoddau a chysylltiadau i'ch helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau. Nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

Buaswn yn eich annog i ddarllen hwn ynghyd â'm hymateb i'ch asesiad llesiant. Roeddwn yn awyddus iddo 'edrych ymlaen' yn hytrach nag 'edrych yn ôl', a'ch helpu i ystyried sut i fynd i'r afael ag asesu a chynllunio llesiant yn barhaus. Fel y gwyddoch, yn ddiweddar cyhoeddais 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory' sy'n amlygu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau a chyrff cyhoeddus ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bwriedir hefyd i'r ddau adnodd hwn weithredu fel cyngor i chi.

***Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft*:**

Nid busnes-fel-arfer yw gosod amcanion a chamau. Yn y gorffennol, rydym wedi gwneud hyn beth bynnag, hynny yw, wedi dibynnu ar themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf yn ymwneud â 'beth' ac â 'sut', hynny yw, beth ydych yn ei wneud i gyfrannau tuag at ein gweledigaeth gyfunol o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Mae'r nodau'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd? Felly beth ydych chi'n mynd i wneud gyda'ch gilydd sy'n wahanol. A sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Blaenau Gwent?

Mae addasu eich dulliau o weithio yn y ffordd hon yn gofyn am ymagwedd sydd yn ei hanfod yn wahanol. Mae angen i chi fel BGC neilltuo amser a gofod i gwestiynu a yw ymagweddau presennol tuag at ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau a thensiynau wrth gyflwyno pob un o'ch amcanion. Mae Saernïaeth Dyfodol Cynaliadwy, Academi Cymru'n dweud yn glir sut mae angen i ymddygiad arweinyddion newid. Gallech ddefnyddio'r fframwaith hwn i'ch helpu i archwilio ymddygiadau eich bwrdd chi eich hunain a sut y gallwch newid.

Cefais fy nghalonogi i glywed eich bod eisoes yn cynnal y sgyrsiau hyn fel BGC am y modd y gallwch weithio'n wahanol. Mae'n braf clywed am hyn, ac rwy'n hysbysu pob BGC bod neilltuo'r amser a'r gofod hwn yn golygu cael trafodaeth ddidwyll am y tensiynau rhwng materion polisi ac arfer presennol o fewn eich sefydliadau mewn perthynas â phob amcan. Ond dylai hyn wedyn ffocysu ar weithredu - pa ymagweddau newydd eraill y byddwch yn eu mabwysiadu gyda'ch gilydd yn y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion a macsimeiddio eich cyfraniad tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol. Buaswn yn hoffi deall sut mae pob un o'r amcanion drafft a'r camau yr ydych yn eu gosod yn ei olygu i Flaenau Gwent a sut mae'n wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol?

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

**Buaswn yn eich cynghori y bydd angen i chi ddangos sut mae'r BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:**

- **Hirdymor**: Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Beth ydynt, ac a ydych wedi archwilio eu heffaith ar eich gweithredu? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd arnoch eu hangen i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? Bydd y gwaith yr ydych wedi ei gomisiynu gan FGC ardal Gwent, gobeithio, yn rhoi senarios sy'n ymwneud â'r dyfodol yn eich ardal. Gall y rhain fod yn hynod bwerus ar gyfer cychwyn trafodaeth am y cyfleoedd a'r risgiau a'r gweithredu y gallwn ei gyflawni ar gyfer yr hirdymor.

  I drwytho'ch gweithredu, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol yn ddigonol ar gyfer pob un o'ch nodau. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r Dyfodol', y dylech fanteisio arno i'r eithaf ac sydd ar gael drwy 'Objective Connect' a thrwy gysylltu â David Thomas. Mae adroddiad Ysgol Oxford Martin 'Now for the long-term' yn dangos tueddiadau'r dyfodol yn fyd-eang a chenedlaethol, tueddiadau y bydd angen i ni i gyd ymateb iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwnsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

  Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn drwyadl y sefyllfa bresennol a graddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Hyd yn hyn rydych wedi nodi bod angen newid strwythurau, gwasanaethau ac adnoddau, ond nid ydych eto'n glir am natur y newid hwn. Rwy'n gwerthfawrogi nad ydych eto'n gwybod beth yw'r darlun cyfan, ond hoffwn weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalu cylchoedd a thwrio'n ddyfnach i mewn i ddata i weld y negeseuon sydd ymhlyg yn y data i ddeall yn well achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau, i drwytho eich camau.

- **Cydweithio**: Rydw i'n cymeradwyo yr amser a neilltuir gan eich swyddogion cynorthwyol i weithio ar draws ardal Gwent ac rwy'n falch i glywed am y cydweithio cadarnhaol a'r ymagweddau tuag at dreialu sy'n digwydd fel canlyniad i hyn. Rwy'n cydnabod bod hon yn broses gymhleth ond mae'n bwysig bod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn mewnwelediadau, her adeiladol, data a datrysiadau i'r BGC. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud

penderfyniadau ar y mater hwn? Pwy arall allai fod arnoch ei angen i gydweithio gyda chi i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau hyn, sut fedrai eich sefydliadau gydweithio'n well. Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen eu cymryd ar y cyd ar draws ffiniau cyfundrefnol er mwyn cwrdd yn effeithiol â'ch amcanion. Gallai hyn gynnwys adleoli staff, chwalu strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau, ac, o'r pwys pennaf, grynhoi adnoddau. Byddaf yn dymuno gweld sut yr ydych chi wedi symud tuag at wireddu'r cydweithio hyn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n macsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Roeddwn yn falch i glywed bod eich trafodaethau wedi cychwyn ystyried y rhyng-gysylltu rhwng yr amcanion sy'n dod i'r amlwg ac sy'n helpu i drwytho eich penderfyniadau am y camau mwyaf effeithiol y gallech eu cymryd a buaswn yn eich annog i barhau i wneud hyn mewn dull bwriadol ac eglur. Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch nodau? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen?

  Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn eich sefydliad, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r nod hwn? Mae fy nhîm wedi siarad yn gadarnhaol am y gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel Gwent-gyfan a bydd gennyf wir ddiddordeb mewn deall manteision a fydd yn deillio hyn wrth i ni symud tuag at gyflawni cynlluniau llesiant. Fel BGC, ydych chi eto wedi cydnabod y rhwystrau a'r tensiynau sydd wedi codi rhwng sefydliadau sy'n aelodau a pha gamau y gallwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgysylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad**: Gwn eich bod wedi ymroi yn gyson i ennyn ymgyfraniad pobl yn natblygiad eich amcanion llesiant dros y misoedd diwethaf a'ch bod wedi ymdrechu i fynd tu hwnt i'r ymgynghori arferol a'r ymgysylltu ad hoc. Rwy'n falch eich bod wedi casglu'r dystiolaeth hon oddi wrth bobl leol ac wedi rhoi ystyriaeth wirioneddol i'r modd y gellir mynegi'r materion llafar hyn yn strategol yn eich amcanion llesiant. Rwy'n dymuno eich gweld yn parhau i adeiladu ar y lefel hwn o ymgysylltu.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

> Sut ydych chi'n cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithredu? Sut ydych chi'n ymroi i wella ymgyfraniad pobl yn eich penderfyniadau? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd yna i ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiad o fywyd go iawn ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Mae eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed i'ch helpu i gyrraedd y lefel hwn o gynnydd mewn asesu llesiant ar gyfer eich ardal, gan syntheseiddio'r dystiolaeth hon i mewn i flaenoriaethau lefel uchel, gan greu dadansoddiad ymateb cynhwysfawr iawn tra'n ymgysylltu ag ystod eang o bobl i symud eich cynllunio llesiant yn ei flaen. Ond rhaid i mi bwysleisio mai eich arweinyddiaeth chi sy'n ofynnol i fabwysiadu dull newydd o weithio. Gwn eich bod wedi defnyddio'r nodau i helpu i lunio eich amcanion, ond maen nhw yno hefyd i'ch helpu i archwilio'r tensiynau a'r cyfleoedd o weithio gyda'ch gilydd i ennill gwell gwasanaeth cyhoeddus i Gymru.

Mae'r arweinyddiaeth hon ynghyd â gweithio mewn partneriaeth yn treiddio i holl lefelau eich sefydliadau. Mae cynrychiolaeth gyson, a sut yr ydych yn dwyn negeseuon yn ôl o'r BGC i'ch sefydliadau chi eich hunain yn hollbwysig ar gyfer adeiladu cysylltiadau ac ennyn gweithrediadau. Fel arweinyddion, rwy'n siŵr eich bod yn rhan o strwythurau partneriaethau niferus, cyfarfodydd a chynlluniau newydd, ond bwriad y BGC yw bod yn gyfle ar gyfer integreiddio a chydweithio ar lefel uwch ac ar lefel dylanwadol. Sut ellid ennyn partneriaethau eraill i gydweithio i gymryd camau i'ch helpu i gwrdd â'ch amcanion? Mae cyfleu i'ch uwch dimau rheoli pam fod gwaith y BGC yn bwysig a bod defnyddio'r cynllun llesiant i herio arferion presennol o fewn eich adrannau chi eich hunan yn allweddol ar gyfer creu'r newid mewn diwylliant a amlygwyd gennych yn eich trafodaethau gyda fy nhîm. Un o fy swyddogaethau i yw adnabod a lleihau rhwystrau, ond mae hyn hefyd yn wir amdanoch chithau - fel uwch arweinwyr, eich rôl chithau hefyd yw herio eich rheolwyr i weithio'n wahanol a'u darbwyllo ei bod hi'n 'saff i fethu'.

Ochr yn ochr â hyn, bydd angen i chi hefyd ddangos sut mae eich sefydliadau'n cymryd pob cam rhesymol wrth ymarfer eu swyddogaethau i gwrdd ag amcanion y BGC. Rwy'n gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn heriol yn ystod cyfnodau cyntaf gweithredu'r Ddeddf gan fod amcanion unigol cyrff cyhoeddus wedi eu gosod. Felly, tra fy mod yn deall bod ar FGCau a chyrff cyhoeddus angen amser i weithio tuag at alinio, byddaf yn dymuno sicrhau nad yw gwaith y BGC yn cael ei weld fel rhywbeth ar wahân i flaenoriaethau'r cyrff sy'n aelodau ohono. Mae'n galonogol eich bod wedi cydnabod nad yw trefniadau cyfredol a strwythurau sefydliadol yn addas ar gyfer y pwrpas a'ch bod yn archwilio amcan i fynd i'r afael â hyn.

Mae BGCau eraill sy'n ymroi i greu newid sefydliadol drwy eu hamcanion yn cynnwys Torfaen (sy'n edrych ar ddatblygu sefydliadol yng nghyd-destun y Ddeddf), Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin, ac efallai y byddwch yn dymuno ymgysylltu'n uniongyrchol â nhw i rannu syniadau a dysgu. Eto, mae fy swyddfa yn hapus i'ch cysylltu os byddai hynny'n ddefnyddiol i chi.

Mae'n dilyn bod cydlynu'r gwaith hwn yn gofyn am gydnabyddiaeth pob un ohonoch fel aelodau'r BGC. Mae gen i ddiddordeb i weld sut mae gwahanol FGCau yn cael eu cynorthwyo, ac ymddengys, pan fydd gwaith yn aml-asiantaeth, ac yn cael adnoddau ac ymrwymiad gwahanol bartneriaid, bod cydweithio ac integreiddio ar draws adrannau'n dod yn haws. Gwn fod rhai BGCau eisoes yn mabwysiadu trefniadau gwaith mwy clos, tîm rhithwir aml-asiantaeth ag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol a chyd-leoli. Mae nifer o adnoddau ar gael a allai fod yn ddefnyddiol megis Designing Multi-Agency Partnerships; Leading Culture Change a Stepping up: a framework for public sector leadership on sustainability. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi, pobl mewn sefyllfaoedd o arweinyddiaeth, chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen. Gobeithio y byddwch yn parhau i arwain ymagwedd seiliedig ar wybodaeth i ddarganfod datrysiadau sy'n wahanol i'r rhai sydd a fabwysiadwyd yn y gorffennol.

Dylai'r cyngor hwn gael ei gymryd ar bob lefel gan FGCau, ond rwy'n gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu gwahanol agweddau wrth ddrafftio'u hamcanion llesiant ac y byddant yn cyflawni eu cynllun llesiant yn y cyd-destun sy'n iawn iddynt hwy. Bydd ail ran fy nghyngor yn eich helpu i ddangos drwy eich cynllun llesiant sut yr ydych wedi defnyddio'r pum dull o weithio a'r saith nod llesiant i lunio eich camau.

***Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft***:

O'r sgyrsiau rheolaidd yr ydych wedi eu cael gyda fy nhîm, gwn fod eich swyddogion cynorthwyol wedi gweithio'n galed dros yr haf i fanteisio ar gasgliadau eich asesiad, wedi blaenoriaethu materion drwy ymgysylltu gyda chi ac ymgysylltu ag eraill i gasglu gwybodaeth broffesiynol i ddrafftio eich amcanion a'ch camau. Bwriad y rhan hon o fy nghyngor yw rhoi syniadau, gwybodaeth a chysylltiadau i chi a allai helpu i ddangos sut yr ydych wedi ystyried y camau y byddwch yn eu cymryd yng nghyd-destun Blaenau Gwent.

Roeddwn yn falch eich bod, yn dilyn derbyn fy nghyngor, wedi treulio amser yn hogi'r 30 thema gychwynnol yn eich Asesiad Llesiant yn bum thema lefel uchel, sy'n llunio amcanion sy'n dod i'r amlwg gan ddefnyddio ymagwedd seiliedig ar asedau. Rwyf hefyd yn hapus eich bod wedi nodi'r angen am amcan ychwanegol wedi ei ffocysu'n fewnol sy'n ymdrechu i ddatblygu eich diben fel BGC effeithiol. Buaswn yn eich annog i barhau gyda'r ffocws hwn ac adeiladu ar ddatblygu cydgysylltiadau rhwng themâu a'r amcanion wrth gytuno a chyflawni eich camau i gwrdd â'r amcanion hyn.

Mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut mae eich amcanion yn unigol, ac fel set gyfunol, yn macsimeiddio eu cyfraniad i bob un o'r nodau llesiant ac nid yn unig yn gwneud cysylltiadau â nifer llai o nodau llesiant ble mae cysylltiad clir ac uniongyrchol. Drwy archwilio cysylltiadau â phob un o'r nodau llesiant byddwch nid yn unig yn ennill darlun mwy holistig o'r mater yr ydych yn ceisio ei ddatrys ond hefyd yn macsimeiddio'r ystod o adnoddau a chyfleoedd y gallwch fanteisio arnynt i'ch helpu i ddod o hyd i ddatrysiadau.

***Cychwyn gorau mewn bywyd***

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Am bob un o'r amcanion drafft a'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd, buaswn yn eich cynghori i fod yn glir am beth a olyga hyn i Flaenau Gwent yn eich cynllunio. Pa dystiolaeth leol a ddefnyddiwyd gennych (neu y byddwch yn ei defnyddio) i ddeall meysydd penodol ymyriadau ataliol llwyddiannus? Pa wasanaethau lleol gaiff eu heffeithio os byddwch yn ailgyfeirio buddsoddi i 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn? Sut fedrai mabwysiadu ymagwedd wybodus tuag at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod argoeli mewn gwirionedd ar gyfer eich sefydliadau?

Ydych chi wedi ystyried tueddiadau hirdymor yr amcan hwn? Mae'r sefyllfaoedd economaidd-gymdeithasol cymhleth mewn llawer o gymunedau Cymru'n awgrymu nad yw teuluoedd yn derbyn y cymorth priodol ar yr amser iawn, ac mae cylchoedd yn parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf. Mae costau'r cychwyn gwaethaf mewn bywyd yn enfawr, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. Amcangyfrifir bod gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr: (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc). Atal sydd wrth wraidd yr amcan hwn a buaswn yn cynghori eich sefydliadau i gydnabod bod atal canlyniadau gwael yn rhan o'u holl gyfrifoldebau.

Fel gwasanaethau cyhoeddus rydym yn aml yn trin symptomau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, megis salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a chamdriniaeth ddomestig, yn hytrach na'r achosion sydd wrth eu gwraidd. Mae mabwysiadu ymagwedd ataliol yn golygu symud adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â materion craidd. Yn y modd hwn, mae delio â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ymwneud llawn cymaint â chael gwasanaeth cyhoeddus sy'n ymwybodol ohono ac yn medru nodi ble mae wedi digwydd ag y mae â gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau a gyrchir gan deuluoedd yn integredig. Yn y camau yr ydych yn eu cymryd, mae'n bwysig nid yn unig i ffocysu ar y blynyddoedd cynnar ond i adolygu cynlluniau sy'n ffocysu ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, tai, gwasanaethau ac eraill i sicrhau eu bod yn ataliol, yn gydgysylltiedig ac yn ymroi i wella amgylchiadau teuluoedd a rhieni'r dyfodol i ddileu'r cylch sy'n parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf. Gweithiodd Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu nad rhywbeth arall i'w wneud yw talu sylw i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym yn cyflwyno gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd weithredu fel man canolog lle gall BGCau rannu arfer, gan fod pob un o'r BGCau yng Nghymru, bron, wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar, a rhoi i blant gychwyn da mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn eu hamcanion drafft a'u camau.

Mae deall profiadau pobl sydd wedi profi trawma yn eu bywydau, drwy ennyn ymgyfraniad plant a'u teuluoedd wrth lunio gwasanaethau, hefyd yn rhoi persbectif ffres wrth lunio gwasanaethau atal. Ar hyn o bryd, yn aml iawn, nid yw ein gwasanaethau'n cael eu gosod mewn dull sy'n cyflawni'r amcan hwn. Rydym yn delio â phobl mewn categorïau twt 'defnyddwyr-gwasanaethau', megis 'dioddefwr camdriniaeth ddomestig', 'troseddwr ymddygiad gwrthgymdeithasol', 'un sy'n camddefnyddio sylweddau', 'tenant trafferthus', ac mae hyn yn aml yn

creu rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael cyfleoedd neu ganlyniadau cyfartal. Mae'r ffordd hon o weithio'n golygu ein bod yn methu cysylltu materion, yn methu integreiddio a gweld arwyddion sefyllfa sy'n gwaethygu. Bwriad y pum dull o weithio yw herio'r modd yr ydym ar hyn o bryd yn gwneud pethau a rhoi lens wahanol fel gwasanaeth cyhoeddus cyflawn ar gyfer delio â phroblemau. Mae ennyn ymgyfraniad pobl i herio'r system yn ganolog, oherwydd dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl y medrwn ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r enghraifft hon 'Pam nad yw pobl yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor' yn rhoi mewnwelediad i'r rhwystrau a wynebir gan bobl wrth iddynt geisio goresgyn anghydraddoldeb ac mae'r astudiaethau achos a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan Locality yn dangos costau ariannol a chymdeithasol o fethu mabwysiadu'r ymagwedd holistig ac ataliol hon tuag at fywydau pobl.

Mae deall profiadau bywyd pobl a gosod y cyd-destun o'r hyn a olygir gan fyw mewn cymuned arbennig yn eich helpu nid yn unig i alinio gwasanaethau, ond yn eich annog i ystyried sut yr ydych yn cyfrannu i Flaenau Gwent sy'n fwy cyfartal. Mae gan y trydydd sector hefyd wybodaeth ddefnyddiol ar gysylltu pobl a gweithgareddau a gwasanaethau lleol yn eu hardal, a'u helpu i aros yn weithgar ac iach. Mae'r CGGC wedi cynhyrchu gwybodaeth ehangach ar y modd y mae'r trydydd sector yn chwarae rôl yn y gwaith o gyfrannu at y saith nod llesiant.

Amlygodd eich Asesiad Llesiant hefyd iechyd y fam - cyn, yn ystod ac yn dilyn beichiogrwydd, fel ffocws allweddol. Gwyddom fod iechyd mamau a theuluoedd yn cael effaith mawr ar fywyd plentyn, sy'n cysylltu â'ch thema arall ar hybu ymddygiadau a ffyrdd o fyw iachach. Yn ogystal ag incwm, gwyddom fod iechyd mam ac iechyd teulu'n cael effaith mawr ar fywyd plentyn. Mae rhwng 10% ac 20% o fenywod yn datblygu problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd o fewn blwyddyn i'r enedigaeth. Mae'r anhwylderau hyn yn un o brif achosion marwolaeth mamau yn ystod beichiogrwydd ac yn y flwyddyn yn dilyn genedigaeth. Er gwaethaf hyn, mae menywod mewn oddeutu hanner y DU heb fynediad i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol arbenigol ac mewn mannau daearyddol eraill mae gwasanaethau'n annigonol. Mae ystyried effaith gwasanaethau fel y rhain ar deuluoedd ifanc yn bwysig os yr ydych i fabwysiadu ymagwedd traws-sector. Mae'r prosiect 'Mums and Babies in Mind' yn Lloegr wedi rhoi ffocws i arweinwyr lleol i greu llwybr ar draws sectorau sy'n darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn i fenywod beichiog a mamau newydd.

Mae gan Flaenau Gwent hefyd fwy o bobl sy'n profi problemau iechyd meddwl. Nododd eich asesiad llesiant bod 17% o oedolion ym Mlaenau Gwent yn dioddef o salwch iechyd meddwl gan ragweld y bydd cynnydd yn y nifer o blant rhwng 5-15 â ganddynt faterion iechyd meddwl erbyn 2020. Mae oddeutu 50% o bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn dangos symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 mlwydd oed, a llawer pan fyddant yn llawer ieuengach. Os ydy'r symptomau'n bodoli pan fydd plentyn mor ifanc, beth ellir ei wneud i atal problemau nes ymlaen mewn bywyd? Os gwyddom fod y GIG ar gyfartaledd yn gwario dros £21 miliwn ar bresgripsiynau gwrth-iselder, sut fedrwn ni weithredu'n gynt? Darganfu Adroddiad Plentyndod Da Cymdeithas y Plant 2017 bod hapusrwydd plant ar ei isaf ers 2010 a bod hyn yn rhannol am eu bod yn ofni trosedd. Mae Caerdydd wedi treialu gwersi iechyd meddwl i blant ac mae adroddiad newydd oddi wrth Respublica a Barnado: Making young minds matter yn amlinellu ymyriadau cynnar (megis cwnsela yn yr ysgol yng Nghymru) a fedr gael effaith cadarnhaol ar iechyd meddwl. Buaswn yn eich cynghori i ennyn ymgyfraniad plant a phobl ifanc yn y broses o ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyrchu'r gofal a'r cymorth priodol, dylunio gwahanol wasanaethau a gwerthuso

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

effeithiau'r ymagwedd hon. Dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl fedrwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Nodais hefyd bod eich asesiad llesiant yn nodi'r effaith arwyddocaol a gaiff tlodi ar blant ym Mlaenau Gwent, gyda'r raddfa uchaf o dlodi plant mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Darganfu'r London School of Economics mewn adolygiad a wnaethpwyd ganddynt i Sefydliad Joseph Rowntree yn 2013 bod plant mewn teuluoedd incwm-is yn profi canlyniadau gwaeth yn wybyddol, yn gymdeithasol-ymddygiadol ac yn eu hiechyd. Yn hollbwysig, dangosodd yr astudiaeth hon, bod hyn, yn rhannol, oherwydd eu bod yn dlotach, nid yn unig oherwydd bod incwm isel yn cydberthyn i nodweddion eraill yn y cartref neu nodweddion rhieni. Sut fedr y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Sut y gellir ffocysu, yn arbennig, ar y cymunedau hyn? Os gwyddom fod amgylchiadau'r man lle maent yn byw eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn yr adeg y maent yn cyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, mae angen i ni ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hyn.

Felly wrth ystyried pa gamau y gallech eu cymryd, gallai gwaith y Sefydliad Economaidd Newydd ar fuddsoddi mewn plant fod yn ddefnyddiol, sy'n amlygu'r angen i fynd i'r afael â llesiant materol a hefyd amgylchiadau allanol - megis tai, tlodi ac addysg - yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol. Buaswn yn eich cynghori i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn a'r manteision y gellid eu sylweddoli drwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar i benderfynu pa gamau y gallwch eu cymryd yn awr i wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu 'Canolfan Iechyd a Chynaliadwyedd' i gyd-drefnu eu gwaith hwy eu hunain o amgylch y Ddeddf a, thrwy gynrychiolydd eich BGC, gallai cysylltu â'r tîm cenedlaethol am fwy o dystiolaeth a gwybodaeth fod yn fanteisiol i chi.

Mae'r mwyafrif o FGCau wedi nodi amcanion drafft sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynnar, gan roi cychwyn da mewn bywyd i blant ac atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cynnwys Cwm Taf, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd a Chonwy/Sir Ddinbych. Mae Alyson Francis a minnau hefyd ar banel gwefinar Cyfnewidfa Arfer Da Cymru ar ddeall Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar y 7fed Tachwedd, a allai fod yn ddefnyddiol i chi wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn.

Buaswn yn eich cynghori i gymryd camau ar unwaith tuag at integreiddio gwasanaethau, cydleoli timau, creu cronfa o adnoddau a gweithio mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'ch cymunedau. Mae rhai teuluoedd yn cyrchu llawer o wasanaethau a byddai integreiddio'r darpariaethau hyn yn well yn eu helpu i helpu eu hunain. Gwelaf o'r diagram sy'n dangos eich myfyrdod ar sut y gellir troi eich blaenoriaethau 'dangosol' drafft yn amcanion llesiant lleol eich bod yn ystyried sefydlu canolfannau llesiant. Mae'r syniad o 'ganolfannau cymunedol' yn dod yn fwy eang ac mae enghreifftiau megis Bromley by Bow Centre yn Nwyrain Llundain; Rhwydweithiau Cymdogaeth Leeds a Gofal Solfach yn dangos cynlluniau arloesol sy'n ffocysu ar anghenion y gymuned yn gyntaf ac yn integreiddio gwasanaethau i wella llesiant. Ni fyddwch yn synnu i wybod bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill hefyd yn ystyried sefydlu amcanion sy'n ymwneud ag ymgysylltu, datblygu/cynnal rhwydweithiau cymdeithasol cryf, meithrin teimlad o berthyn a llunio gwasanaethau. Yn arbennig efallai y byddech yn dymuno rhannu syniadau

gyda BGCau Bro Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, Casnewydd, Ceredigion a Phowys, sydd wedi rhoi amcanion drafft tebyg i mi.

***Ymddygiadau a ffyrdd o fyw iach***

Fel BGC rydych wedi nodi'r thema hon fel un hollbwysig oherwydd ei bod yn ymwneud ag atal a galluogi pobl i wella eu llesiant. Nododd eich asesiad llesiant pa mor bwysig yw ymddygiadau iach ar gyfer hybu iechyd da a lleihad mewn afiechyd. Nododd hefyd y cysylltiad rhwng ymddygiadau sy'n niweidio iechyd ac amddifadedd ac amgylchiadau bywyd. Dylai eich camau, felly, fod yn berthnasol nid yn unig i'r modd y gellir gwella iechyd ond hefyd i'w hamgylchedd naturiol ac adeiledig, eu hincwm a'u bywyd cymdeithasol - pob un yn benderfynyddion iechyd ehangach. Rwyf yn eich cynghori i ddefnyddio'r diffiniadau hyn o'r saith nod llesiant, gan eu bod wedi eu bwriadu i ddangos sut y gallwn gael manteision llesiant niferus drwy ein gweithredoedd.

Awgryma tystiolaeth bod galluogi pobl i wneud dewisiadau iechyd iach yn gysylltiedig â'u statws economaidd, eu hamgylchedd a sut y maent yn cysylltu ag eraill. Rydych wedi nodi o'ch gweithgareddau ymgysylltu, bod pobl yn deall bod gweithgareddau hamdden yn bwysig i lesiant. Mae newid yn aml yn 'glynu' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd; er enghraifft, darganfu'r adroddiad Nudjed 'Behaviour Change is a Team Sport' bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng Nghymoedd De Cymru i ennyn eu hymgyfraniad mewn gweithgaredd mwy corfforol. Sut mae hyn yn berthnasol i'ch amcanion eraill a'ch themau lefel uchel? A fedr gweithgareddau i fynd i'r afael â chydnerthedd cymunedol ac unigrwydd helpu pobl i fyw bywydau iachach? Sut fedr gwella'r amgylchedd naturiol hefyd helpu i reoli eu bywydau? Fel yr ydych eisoes wedi sylweddoli rwy'n siwr, mae yna gyfleoedd i chi weithio gyda sefydliadau megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt i ddatblygu ymagwedd sir-gyfan. Mae prosiect Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru'n enghraifft o gael pobl allan i'r awyr agored, i amddiffyn eu hamgylchedd a mwynhau'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant. Sut fedrwch chi ennyn rhai 'anarferol' i archwilio'r camau i gwrdd â'r amcan? Sut fedrwch chi alluogi'r trydydd sector i helpu? Mewn rhai ardaloedd, mae sefydliadau cymunedol wedi cael eu hariannu gan Gronfa Gofal Ganolraddol i weithredu fel cydlynwyr cymunedol ar gyfer pobl hŷn - a'u cysylltu â gweithgareddau lleol a gwasanaethau yn eu hardal a'u helpu i aros yn weithgar ac iach. Os fydd hyn yn llwyddo sut fedrwn ni gydweithio'n well ar ddarparu adnoddau i fentrau fel y rhain?

Gallai cydweithio gydag eraill i wneud i hyn ddigwydd wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n llesiant. Bydd cydweithio gyda 'rhai anarferol' ac ennyn ymgyfraniad pobl yn y modd yr ydych yn cymryd camau i gwrdd â'r amcan yn eich galluogi i facsimeiddio eich cyfraniad tuag at y saith nod llesiant. Er enghraifft, beth yw rôl diwylliant yn y dasg o alluogi plant ac oedolion i fyw bywydau iachach? Sut fedrai pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i helpu i reoli eu bywydau megis strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n amlinellu rhai o'r manteision i iechyd, cydlyniad a sgiliau'r boblogaeth sy'n deillio o ymgyfrannu mewn gweithgareddau creadigol. Mae'r Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol gydag ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le. Gallai cydweithio gyda chyrff cyhoeddus cenedlaethol sydd ynghlwm wrth y Ddeddf, megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru eich helpu i weld sut y gall y camau yr ydych yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn i facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau.

Mae dulliau o bresgreibio cymdeithasol yn cwmpasu ystod enfawr o bethau, ac mae'n cynyddu ac mae'n galonogol i weld ei fod yn cael ei gydnabod fel ymagwedd ataliol. Mae'r astudiaeth hon o bresgreibio cymdeithasol ym Mryste, yn rhoi peth mewnwelediad i'r gwelliannau mewn iechyd meddwl ac iechyd yn gyffredinol. Dangosodd rhaglen ddogfen ddiweddar y BBC 'The doctor who gave up drugs', sawl enghraifft o'r modd y gall ymagwedd amgen tuag at bresgreibio tabledi gael effaith fwy holistig, cadarnhaol sy'n para am amser hir, ar fywyd rhywun - gyda phobl yn dod yn fwy ffit yn gorfforol ac yn fwy iach yn feddyliol heb ddibynnu ar bresgripsiynau.

Mae'r BGCau sy'n drafftio amcanion i wella iechyd, i wella atal a galluogi pobl i fod yn fwy cyfrifol am eu hiechyd, cyflwyno newid ymddygiad a phresgreibio cymdeithasol, yn cynnwys Powys, Caerffili, Cwm Taf, Conwy/Dinbych a Sir Fynwy.

### *Cryfhau ein hunaniaeth ddiwylliannol ffyniannus, a'n cydnerthedd cymunedol*

Mae'r thema hon yn amlygu nifer o faterion cymhleth o'ch asesiad llesiant, sy'n galw arnoch i edrych ar y gwahaniaethau ar draws Blaenau Gwent, integreiddiad presennol eich gwasanaethau a ffactorau allanol. Buaswn yn eich cynghori eich bod yn twrio'n ddyfnach i'r data i drwytho eich dealltwriaeth o'r materion sy'n berthnasol i'r thema hon ac ymroi i ddeall eich cymunedau'n well. Gwrandewch ar yr hyn a ddywedodd pobl wrthych am eu cymunedau a chydweithiwch i ddarganfod datrysiadau gan ddefnyddio'r saith nod llesiant.

Fel arweinyddion asiantaethau lleol, mae gennych rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gynorthwyo cydlyniad cymunedol, o gofio eich rôl mewn arwain a chydgysylltu cymunedau, a'ch rôl mewn adeiladu gallu cymunedol drwy, er enghraifft, hwyluso rhwydweithio a chydweithredu, a darparu hyfforddiant i grwpiau cymunedol a chyflogwyr. Mae'r ymchwil a ddogfennwyd yn "What Works in Community Cohesion" yn rhoi cyfeiriadu defnyddiol i FGCau ar wahanol ddimensiynau cydlyniad cymunedol.

Gofynnwch i chi eich hunain a yw'r ddarpariaeth bresennol yn briodol ar gyfer rheoli'r materion hyn? A yw'r materion hyn ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n ddigonol ac ym mha feysydd y gall fod angen mwy o weithredu ar y cyd neu weithredu mwy ataliol? Beth yw effaith bod yn anhygyrch? Pa mor addas ar gyfer y dyfodol yw darpariaeth TG? Pa effaith a gaiff canfyddiadau pobl o ddiogelwch ar eu gallu i gyrchu gwasanaethau neu chwarae rôl weithgar yn eu cymunedau? Sut mae lefelau gwirfoddoli'n gwahaniaethu ar draws y wlad? I ba raddau y mae'r gwirfoddolwyr niferus yn ymgyfrannu yng ngwaith y BGC?

Gallai deall profiadau bywyd pobl roi i chi fewnwelediad pwysig i'r modd y mae gwahanol gymunedau'n gweithredu, a lle byddai eich gwasanaethau o'r cymorth mwyaf. Er enghraifft, oes yna ffyrdd drwy y rhain y gallai'r BGC annog a gwobrwyo gweithgaredd cymunedol mewn modd a fyddai'n eich helpu i gwrdd â'ch amcanion mewn ardaloedd arbennig? Mae adroddiad y Sefydliad Royal Town Planning, 'Poverty, Place and Inequality' yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n egluro pam mae ymagweddau seiliedig ar le yn allweddol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi rhwng ac o fewn cymunedau.

Buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i Safonau Cyfranogaeth Cenedlaethol a gweithio gyda Cyfranogiad Cymru, a fedr gynorthwyo eich swyddogion i ennill y sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer ymgyfraniad effeithiol ac ystyrlon. Gallai Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru eich helpu i adnabod ac annog arweinwyr cymunedol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy, eu teulu neu'r man lle maent yn treulio amser ac yn aml gall hyn arwain at ganlyniadau llawer mwy fel y dengys y gwaith a wnaed gan 'Nurture Development' Datblygu Cymuned sy'n seiliedig ar Asedau. Mae eich astudiaeth chi, 'Lle Dwfn' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhredegar yn rhoi tystiolaeth o'r modd y mae dealltwriaeth o le yn medru bod yn fanteisiol iawn i lesiant.

Ydych chi hefyd wedi ystyried sut y gallai pobl fod yn dymuno ymgyfrannu yn y dyfodol? Pa newidiadau allai fod angen i chi eu gwneud i'ch systemau sefydliadol a pholisïau i alluogi pobl i ymgyfrannu mwy mewn cymunedau a llunio gwasanaethau lleol? Ar hyn o bryd dengys ymchwil bod plant rhwng 5 ac 16 mlwydd oed yn treulio chwe awr a hanner bob dydd o flaen sgrin; 28% o bobl ifanc yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel eu prif ffynhonnell newyddion; 43% o bobl a anwyd rhwng 1980 a dechrau'r 2000au yn cael eu gyrru i wneud cyfraniadau ariannol drwy sianelau cymdeithasol; ac yn ôl arolwg ONS 2017, 87% o oedolion yng Nghymru, yn ddiweddar, wedi defnyddio'r rhyngrwyd (hynny yw yn ystod y tri mis diwethaf). Er bod rhai pobl ar hyn o bryd heb fod ar-lein, a bod angen amlwg am ymagwedd wedi ei theilwra, mae yna gyfle gwirioneddol i ymgysylltu â phobl yn y dull sydd fwyaf cyfleus iddynt hwy ac sy'n rhan o'u bywyd bob dydd, yn hytrach na bod yn dasg ychwanegol iddynt.

Rydych wedi nodi bod mannau anodd eu cyrchu ym Mlaenau Gwent a thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig yn awgrymu bod arwahanrwydd ac unigrwydd yn fater o bryder nid yn unig i bobl hŷn ond i bobl iau hefyd. Mae ymchwil ar Heneiddio'n Dda yng Nghymru wedi dangos hyn ac yn awgrymu bod unigrwydd yn ymwneud â bod ar ben eich hunan yn gorfforol a hefyd â theimlo eich bod yn rhan o rywbeth. Er nad yw technoleg yn mynd i ddarparu'r holl atebion i arwahanrwydd yn ein cymunedau, meddyliwch am yr effaith hirdymor a fedrai ei gael ar ein poblogaeth. Yn ein heconomi sy'n rhannu, a allai fod yna atebion technegol ar-lein a fedr atal arwahanrwydd cymdeithasol, megis cronfeydd ceir, neu drafnidiaeth gymunedol wedi eu cysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol? Mae'r cysyniad o 'Hyperbentref' a ddatblygwyd gan FutureScape yn dychmygu pentrefi wedi eu cysylltu gan eu hasedau, sy'n annog pobl mewn cymunedau gwledig i elwa ar dechnoleg. Sut ydych chi wedi meddwl am y posibiliadau hirdymor o fanteisio ar dechnoleg i ddatrys y mater hwn? Mae gan Sir Fynwy record dda am ddefnyddio datrysiadau technegol fel ateb i broblemau. Mae "Sir Fynwy Agored" yn enghraifft o lwyfan ar-lein sydd wedi rhagweld sut y gallai pobl gyfrannu tuag at wella'u hardal yn y dyfodol, gyda chyfleoedd i rannu syniadau, i ofyn am farn y gymuned, cychwyn prosiect a chwilio am wirfoddolwyr neu adnoddau. Byddai Matthew

Gatehouse, sy'n gweithio gyda BGC Sir Fynwy, yn medru eich helpu i rannu eu gwybodaeth gyda chi ar sefydlu'r wefan hon.

Mae Cyngor Cymuned Solfach yn Sir Benfro'n enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phobl hŷn wedi elwa o gynllun i leihau arwahanrwydd a gwella llesiant. Mae yna lawer o enghreifftiau da o brosiectau sy'n ymroi i ddwyn pobl at ei gilydd i ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu ac adeiladu eu cydnerthedd nes ymlaen yn eu bywydau, megis Siediau Dynion Cymru, sy'n digwydd ar draws Cymru, y gallai'r BGCau eu hannog a'u cynorthwyo. Dyma lle dylai'r pum dull o weithio fod yn herio eich dull o feddwl a bydd gennyf ddiddordeb mewn gweld sut y byddwch yn dylanwadu ar, ac yn annog y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Llesiant i gyflawni eich ymateb i'ch amcanion. Mae'r adroddiad hwn gan Young Foundation yn rhoi ysbrydoliaeth ar 'Arloesi ffyrdd gwell o fyw yn hwyr mewn bywyd' gan herio'r seilos traddodiadol yr ydym yn gweithio ynddynt. Gall creu cymunedau ac amgylcheddau hyblyg cyfeillgar i oed, atal pobl rhag bod mewn angen gofal cymdeithasol, rhag cael eu hynysu, rhag dioddef afiechyd neu gael damwain yn eu cartrefi.

Gallai agor tir ac adeiladau i'r gymuned fod yn ddull o annog gwireddiad llawer o fanteision. Ar draws y DU, mae caledi wedi golygu bod adeiladau, tir a gwasanaethau wedi cael eu trosglwyddo i'r gymuned, ac mewn llawer achos mae hyn wedi cynyddu llesiant y bobl oedd yn ymgyfrannu. Sut fedrwch chi wella'r defnydd o'r ystâd gyhoeddus gyfunol sydd gennych ym Mlaenau Gwent?  Os ydy arwahanrwydd a thrafnidiaeth yn fater o bwys sut fedrir gwneud peth darpariaeth mewn dull gwahanol? Mae'r Grŵp Gweithgor Asedau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru  wedi nodi rhai enghreifftiau Cymreig y byddech efallai yn dymuno eu harchwilio, ond mae yna lawer o sefydliadau cenedlaethol sy'n hybu gwell defnydd o dir ac asedau cyhoeddus, megis Shared Assets, Nurture Development a Locality gyda'r bwriad o annog cymunedau i ffynnu.

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill hefyd yn ystyried gosod amcanion sy'n ymwneud ag ymgysylltu, diwylliant, datblygu/cynnal rhwydweithiau cymdeithasol cryf, meithrin y teimlad o berthyn a llunio gwasanaethau. Yn arbennig efallai y byddwch yn dymuno rhannu syniadau â BGCau Bro Morgannwg, Ceredigion a Chasnewydd.

***Creu llwybr newydd tuag at ffyniant***

Mae eich asesiad o lesiant economaidd yn nodi sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus ym Mlaenau Gwent wedi darparu ymyriadau llwyddiannus ym Mlaenau Gwent mewn llawer ardal, sydd, yn anffodus, yn cael eu gorchuddio gan raddfa'r heriau yr ydych yn eu hwynebu yn eich ardal. Fel Prif Weithredwyr, Arweinwyr, Cadeiryddion ac uwch-reolwyr, mae eich rôl a'ch gweithrediadau wedi cyfrannu tuag at greu'r newid hwn. Mae'r amcan hwn yn hawlio arweinyddiaeth gref, fel y nodais uchod, sy'n treiddio drwy bob un o'ch sefydliadau. I gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn, bydd angen i chi fod yn ddewr pan fyddwch yn creu cronfa o adnoddau, yn newid polisïau ac yn cymryd risgiau drwy roi cynnig ar ymagweddau gwahanol. Bydd angen i chi gyfleu'r newidiadau hyn o fewn pob un o'ch sefydliadau. Mae'r saith maes newid yn y Ddeddf: cynllunio corfforaethol, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu, caffael, asedau, rheoli perfformiad a risg yn weithrediadau canolog sefydliadol, lle byddai

defnyddio’r pum dull o weithio yn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy’n fframio’r modd yr ydych yn gweithio. Buaswn yn eich cynghori i werthfawrogi’r dylanwad y gallwch ei gael dros sefydliadau eraill hefyd.

Yn gyffredinol, buaswn yn eich cynghori, fel arweinyddion gwasanaethau cyhoeddus, i ystyried pa gamau y gallwch eu cymryd neu ddylanwadu arnynt i gwrdd â’r amcan hwn a macsimeiddio eich cyfraniad i bob un o’r saith nod llesiant. Bydd angen i chi fod yn glir am y modd yr ydych wedi myfyrio ar y diffiniadau cyflawn o bob un o’r Nodau Llesiant yn cynnwys y nod ‘Cymru Ffyniannus’ Bydd angen i chi ddadansoddi ymhellach beth a olyga hyn i Flaenau Gwent - ble mae lle ar gyfer arloesedd, economi carbon isel, a’r potensial i sicrhau swyddi gweddus - yn arbennig yng ngoleuni eich canfyddiadau yn eich asesiad llesiant.

Sut fedrwch chi ennyn ymgyfraniad pobl o’r cymunedau mwy anghyfartal ym Mlaenau Gwent i ofyn am eu barn ar greu cyfleoedd? Sut fedr eich sefydliadau gynnig prentisiaethau i bob oed? Sut fedr eich gweithdrefnau caffael facsimeiddio eich cyfraniad i’r nod o greu Blaenau Gwent sy’n gyfrifol yn fyd-eang? Fel ardal â nifer uchel o fentrau gweithgar, busnesau a chwmnïau newydd, a fedr eich polisïau sefydliadol ymroi i helpu busnesau lleol cynaliadwy, cwtogi ar drawsgludo nwyddau, yn hytrach na ffocysu ar gost yn unig? Mae Forum for the Future wedi cyhoeddi adroddiadau ar hyn ac mae fy swyddfa’n gweithio gyda Gwerth Cymru i dreialu caffael cynaliadwy yng nghyd-destun y Ddeddf. Sut fedr eich prosesau caffael hyrwyddo cydraddoldeb? Sut fedr polisïau gynyddu’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn yr ardal? Gwnaeth Alun Davies AC ddatganiad yn ddiweddar ar ariannu ar gyfer tyfu busnesau bach dwyieithog er mwyn cynyddu amlygrwydd Cymraeg yn ein cymunedau. Wrth ymroi i alluogi entrepreneuriaeth a thwf, beth am gyflwyno mentrau sy’n mynnu bod pobl yn sefydlu mentrau cynaliadwy sy’n macsimeiddio eu cyfraniad i’r saith nod llesiant?

Mae dyfodol gwaith yn ansicr. Mae swyddi sy’n bodoli nawr yn rhai nad oedd son amdanynt pan adewais i yr ysgol, a bydd yr un fath yn wir yn hanes ein plant. Mae’r adroddiad Workforce of the Future yn rhagweld y bydd 65 y cant o’r plant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gweithio mewn swyddi fel oedolion nad ydynt hyd yn oed yn bodoli eto. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor wrth benderfynu ar eich camau ac wrth alluogi pobl i addasu eu sgiliau fel eu bod yn addas ar gyfer y dyfodol? Pa sgiliau bywyd allai fod angen ar eich plant i lwyddo ym Mlaenau Gwent yn y dyfodol? Mae’r adroddiad Workforce of the Future hefyd yn awgrymu bod gwaith seiliedig ar brosiectau yn debygol o ddod yn fwy eang, gyda sgiliau fel creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys-problemau yn llawer pwysicach yn y dyfodol na gwybodaeth benodol. Mae gwaith tîm, cyfathrebu a hyder mor werthfawr i bobl ifanc â graddau da pan fyddant yn cychwyn gwaith, fel y nodwyd yn adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth y Tywysog ‘Results for Life’.

Mae eich asesiad llesiant yn nodi bod y mwyafrif o boblogaeth Blaenau Gwent yn cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus ond rhagwelir y bydd hyn yn lleihau ac yn ôl McKinsey, gallai technoleg awtomeiddio 45 y cant o’r tasgau y telir pobl i’w gwneud ar hyn o bryd - sut ydych chi wedi ystyried yr effaith a gaiff awtomeiddio ar y rolau hyn pan gânt eu disodli ganddo? Sut fedrwch chi weithredu nawr, fel darparwyr gwasanaeth cyhoeddus, i annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol, sy’n ymwneud â gofal lleol, manwerthu a’r diwydiannau bwyd, sy’n llai tebygol o gael eu hawtomeiddio yn y dyfodol ac a fydd yn llesol i’r economi lleol? Mae adroddiad diweddar gan

Sefydliad Joseph Rowntree yn amlygu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd. Sut ydych chi wedi ystyried y tueddiadau hirdymor hyn wrth bennu eich camau a galluogi pobl i addasu eu sgiliau ar gyfer ennill bywoliaeth yn y dyfodol?

Dylech ystyried pwy arall a allai fod ag angen i chi gydweithio gyda hwynt wrth ddatblygu'r amcanion drafft, megis ysgolion, busnesau, Coleg Gwent prifysgolion a mentrau cymdeithasol. Pa gyfrifoldebau cymdeithasol a fabwysiadwyd gan y sector preifat yn yr ardal? Sut mae busnesau yn dod at ei gilydd i sbarduno newid cadarnhaol, hirdymor ac a oes gan y BGC unrhyw ddylanwad yn hyn o beth? Pa gyfleoedd y gellid eu cynnig i fentrau cymunedol newydd drwy gydweithio rhwng y BGC, y sector preifat a darparwyr addysg? Pa ymchwil sydd wedi cael ei wneud am yr economi lleol? Mae eich asesiad llesiant yn nodi nad oes gan bobl ifanc y cymwysterau lefel isel a'r sgiliau sydd eu hangen i gael mynediad i gyflogaeth, felly, sut fedrech chi annog busnesau lleol i ddefnyddio'u cyfrifoldebau cymdeithasol a galluogi gwell dysgu ar gyfer pobl iau a phobl hŷn?

Fel y crybwyllais uchod, bydd yn hollbwysig bod y camau a gymerwch i gwrdd â'r thema hon yn cael eu hintegreiddio ar draws y themâu a'r amcanion eraill. Er enghraifft, rydych wedi nodi bod gan amgylchedd naturiol o ansawdd da fanteision posibl i economi twristiaeth lwyddiannus. Sut fedrwch chi annog twristiaeth gynaliadwy yn yr ardal wrth ddatblygu sir â chysylltiadau da? Sut fedr y cymunedau o gwmpas Blaenau Gwent ymgyfrannu yn y gwaith o ddarganfod llwybrau teithio llesol, a chreu cyfleoedd i fusnesau bach a chanolig? Gall annog ffocws o gwmpas diwylliant ac iaith yr ardal hefyd eich helpu i facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau.

Mae cymunedau eraill yn ystyried sut i gadw pobl ifanc dros yr hirdymor, gan fod yna dueddiad - a welir ar draws Cymru - i bobl ifanc adael y sir a mynd i chwilio am waith mewn mannau eraill. Mae cymunedau mewn ardaloedd gwledig yn Siapan a Chanada wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl ifanc yn eu poblogaeth sy'n aros yn y man lle cawsant eu geni fel canlyniad i well technolegau, ond hefyd drwy ddathlu'r ffordd o fyw a chyflwyno twristiaeth gynaliadwy. Awgryma'r erthygl hon yn World Economic Forum y gallai rhai o'r atebion fod mewn mentrau cymunedol o'r gwaelod-i-fyny, lle mae pobl ifanc yn ymfalchïo mewn dweud wrth eraill am eu treftadaeth a'u hamgylchedd, ac fel y maent wedi cychwyn busnesau sy'n elwa ar dwristiaid yn ymweld â hwynt. Sut fedr y BGC feithrin twf drwy ei ddylanwad; a fedrai hyn arwain at bobl ifanc yn ymgymryd â phrentisiaethau neu hyfforddiant?

Mae eich asesiad yn nodi bod nifer uchel o bobl ym Mlaenau Gwent heb gymwysterau. Tra bod darparu cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu a datblygu yn beth da, y peth pwysicaf yw galluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn. Felly, buaswn yn eich cynghori i dwrio'n ddyfnach i mewn i'ch data ar y mater hwn i ddeall yn llwyr pam nad yw lefelau cyflawni'n gwella'n gyflym, cyn penderfynu pa gamau i'w cymryd ar gyfer cwrdd â'r amcan hwn. Gofynnwch i chi eich hunain beth fyddai mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth i ddysgu a datblygiad pobl ym Mlaenau Gwent drwy gydol eu bywydau? Beth arall sy'n cael effaith ar fywydau pobl y gallech chi, fel gwasanaethau cyhoeddus, eu hatal.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
**cenedlaethaurdyfodol.cymru**

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
**futuregenerations.wales**

Dylai astudiaeth a wnaed yn Newcastle fod o ddiddordeb i chi yn hyn o beth. Cwmni ddim-am-elw yw Social Finance sy'n arbenigo mewn dadansoddiad trwyadl, gan edrych ar elw cymdeithasol sy'n deillio o fuddsoddi, a chawsant eu comisiynu gan Gyngor Dinas Newcastle i dwrio'n ddyfnach i'w helpu i fynd i'r afael â phroblem NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Tra bo ffocws traddodiadol yn edrych ar gyraeddiadau TGAU, yr hyn a ddengys y dadansoddiad hwn yw nad cyflawniadau academaidd mewn gwirionedd yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o bell ffordd, gan ddangos yn hytrach bod 67% o rai rhwng 17-19 mlwydd nad oeddent mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant wedi dod o blith y 25% o rai 17 - 19 mlwydd oed, a oedd, yn ystod eu plentyndod, wedi cael cysylltiad nifer o weithiau â'r gwasanaethau cyhoeddus. Dangosodd yr ymchwil bod y rhai oedd wedi cael cyn lleied â chwe rhyng-gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus wedi treulio tair gwaith gymaint o amser allan o addysg neu hyfforddiant. Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod edrych ar y mater mewn dull mwy holistig yn egluro'r camau y gallwch eu cymryd fel BGC i wireddu eich amcanion.

Gan fod mwyafrif y mentrau gweithgar (16%) ym Mlaenau Gwent yn y sector adeiladu, hoffwn hefyd eich cynghori i ystyried camau ar y modd y gallwch gydweithio i wneud y gorau o'ch asedau. Gyda'ch gilydd mae gennych lawer o ystadau'r sector cyhoeddus, y cyfrifoldeb am seilwaith a dylanwad yn y modd y mae adeiladau cyhoeddus yn cael eu dylunio, a'u hailwampio. Dylech archwilio pa weithgareddau pendant y gallech eu mabwysiadu, megis sut yr ydych yn cynllunio, dylunio, a lleoli mannau agored cyhoeddus, a fedr gael effaith cadarnhaol ar lesiant. Mae Closing the Circle yn adrodd ar yr economi cylchol ac mae 'Amgylchedd Cymru' yn adroddiad defnyddiol a ysgrifennwyd gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru. Mae'n dangos cyfle economaidd posibl o £1biliwn ychwanegol y flwyddyn erbyn 2035 drwy ddefnyddio, mewn ffordd ymarferol, egwyddorion yr economi cylchol ac yn rhoi enghreifftiau ymarferol o ble fedr y sector cyhoeddus ymroi i leihau gwastraff ac adnoddau ym mhrosiectau'r dyfodol. Mae hyn yn gynnydd o 12.5% yn nhrosiant sector amgylchedd adeiledig Cymru ac mae'n cynhyrchu 7,300 o swyddi (gros). Gallwch hefyd gael eich ysbrydoli gan rai o'r prosiectau a grybwyllwyd yng Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd, megis Ystafell Ddosbarth Weithgar. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, yn nhermau effeithlonrwydd ynni ac adeiladwaith cynaliadwy, yn fanteisiol iawn i chi fel BGC.

Rwyf wedi son cyn hyn am y cyfle a gyflwynir gan Ranbarth Dinas Caerdydd. Mae yna ddiddordeb amlwg yn y BGC ynglŷn â mantesio ar y cyfleoedd a gynigir gan yr ardal a buaswn yn eich cynghori, fel pobl mewn sefyllfaoedd arweinyddol, bod angen I chi ddylanwadu ar y trafodaethau presennol gan gadw mewn golwg eich amcanion drafft ar gyfrer Blaenau Gwent. Mae Sefydliad Joseph Rowntree'n amcangyfrif bod tlodi'n costio £2.2 biliwn y flwyddyn i'r rhanbarth cyfan. Ychydig o effaith a gaiff cynyddu Cynnyrch Domestig Gros ar leihau anghydraddoldebau, ac mewn wyth o bob deg o ardaloedd Awdurdod Lleol yr ardal, mae tlodi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Buaswn, felly, yn eich cynghori i annog nad yw gwerth o fewn y Ddinas Ranbarth yn cael ei osod yn unig ar dwf economaidd ond ar ddatblygu patrymau cyflogaeth a gwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan fuddsoddi yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig i annog sgiliau mewn technoleg, creadigrwydd a datrys-problemau er mwyn chwalu'r patrymau tlodi sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae eich asesiad llesiant yn amlygu lefelau uchel o allgauedd digidol a wynebir gan eich cymunedau. Sut mae cyfleoedd i gynyddu cysylltedd yn cael eu cynyddu drwy'r datblygiad mewn seilwaith digidol? Hefyd yn ddiweddar gwneuthum sylw mewn ymateb i

adroddiad diweddar Dr Mark Lang a'r Athro Terry Marsden "Re-thinking Growth: Toward the Well-being Economy."

Mae nifer o FGCau eraill sy'n drafftio amcanion a chamau tebyg yn cynnwys Powys; Caerdydd; Ceredigion; Casnewydd; Sir Benfro, Sir Fynwy a Chaerffili.

### *Gwella'r amgylchedd naturiol*

Mae pobl Blaenau Gwent wedi nodi bod yr amgylchedd naturiol yn ased anhygoel drwy eich asesiad llesiant. Mae'r mannau agored gwyrdd yn eich ardal ac ansawdd a naws y strydoedd lleol yn ffactor pwysig yn llesiant pobl. Rydych wedi cydnabod y manteision niferus o gael amgylchedd naturiol o ansawdd da, ei rol economaidd bwysig drwy ddatblygiad twristiaeth a seilwaith ynni cynaliadwy, ond hefyd yr effaith cadarnhaol sydd ganddo ar iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â lleihau effeithiau digwyddiadau eithafol a'r newid yn yr hinsawdd.

Mae adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru ar seilwaith gwyrdd yn amlinellu sut mae seilwaith gwyrdd yn darparu ystod o fanteision pendant sydd wedi eu profi, a manteision economaidd cost-effeithiol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae gan Gomisiwn Dylunio Cymru hefyd astudiaethau achos ac adnoddau ar ddylunio sy'n ffocysu ar ddefnyddwyr, yn macsimeiddio effeithlonrwydd ynni ac wedi dangos y gall brysuro iachâd cleifion mewn modd arwyddocaol. Ym mhob un o'r ardaloedd hyn gall fy swyddfa eich cysylltu â'r bobl a'r sefydliadau hyn, a fyddant, efallai, yn gallu eich helpu wrth i chi ddatblygu eich gwaith.

Mae cynnal eich amgylchedd naturiol hefyd yn gofyn am ymgyfraniad trigolion. Sut fedrwch chi wrando'n well ar yr hyn sy'n eu hysgogi i ddefnyddio eu ceir, yn hytrach na theithio llesol? Sut fedrwch chi gynnal twristiaeth gynaliadwy yng Nghymru? Mae asedau amgylcheddol eich ardal yn rhyfeddol, felly sut fedrwch chi gysylltu'r coedwigoedd, rhostiroedd mawn, parciau, safleoedd o ddiddordeb arbennig ac arwyddocâd hanesyddol a chyfleoedd teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus ac, ar yr un pryd, fod o fudd i fusnesau lleol? Mae hyn yn golygu ffocws seiliedig ar le mewn materion cynllunio, a ffocws ehangach ar lesiant amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal - yn hytrach nag enillion economaidd pur.

Gall cael pobl i ymgyfrannu mewn rhedeg eu cymunedau hefyd gael effaith cadarnhaol ar helpu i wneud yr amgylchedd lleol yn fwy cydnerth. Mae gan NESTA ganllaw ar gyfer gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn cynnwys yr 'Her Fawr Werdd', lle mae cyfranogwyr wedi newid eu ffordd o fyw er mwyn lleihau eu hôl-troed carbon. Mae prosiectau megis 'GlawLif' Dŵr Cymru yn awgrymu dulliau y gallwn i gyd eu defnyddio i liniaru effeithiau llifogydd. Mae enghraifft eithafol yn cynnwys Ynys Eigg yn yr Alban, lle mae'r gymuned yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu hamgylchedd drwy gyflwyno a gofalu am gynlluniau ynni cymunedol adnewyddadwy, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth.

Bydd cydweithredu gyda busnesau ar y modd yr ydych yn cymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn hefyd yn bwysig ar gyfer gwarchod a gwella'r tir ac atal bioamrywiaeth sy'n dirywio a cholli cynefin. Ar gyfer pob un o'r camau hyn, defnyddiwch y diffiniadau o'r nodau llesiant i feddwl am y modd y gallwch wneud rhywbeth yn wahanol a

gwireddu'r effaith mwyaf posibl, a hefyd integreiddio ar draws llawer o'ch camau drafft. Er enghraifft, sut fedrwch chi alluogi cyfleoedd gwirfoddoli corfforaethol sy'n ymroi i wella cydnerthedd yr amgylchedd naturiol? Pa gynlluniau gwirfoddoli fedrai helpu i greu Blaenau Gwent sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang? Sut fedr pobl annog cydraddoldeb drwy eu gwaith gwirfoddoli, a chydlyniad rhwng rhai o gymunedau Blaenau Gwent? Mae gan Busnes yn y Gymuned ystod o ddulliau ymarferol i fusnesau weithio gyda'i gilydd a gweithredu i helpu i daclo rhai o'r materion amgylcheddol a chymdeithasol allweddol sy'n wynebu cymdeithas.

Buaswn yn eich cynghori i feddwl am eich rolau chi eich hunain yn y gwaith o warchod yr amgylchedd hwn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, y bydd angen iddo fod yn glir yn y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'r amcan hwn. Bydd hyn yn cynnwys sut yr ydych yn cynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau'r dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol), adeiladau, seilwaith a mannau agored cyhoeddus a chymunedol eraill. Mae adroddiad diweddar Zero Carbon Britain, 'Making it Happen' yn nodi'r cyfrifoldeb sy'n eiddo i ni i gyd i genedlaethau'r dyfodol i weithredu yn awr ar y newid yn yr hinsawdd. Beth fedrwch chi ei wneud, fel Prif Weithredwr, Cadeirydd neu Arweinydd, yn awr i leihau effeithiau colli ein hamgylchedd a bod yn gyfrifol yn fyd-eang? Er mai dim ond ychydig o allyriadau yng Nghymru sy'n deillio o'r sector cyhoeddus, rydych chi mewn sefyllfa unigryw i ddylanwadu'n fwy eang ar allyriadau mewn meysydd megis cludiant nwyddau, ynni, defnyddio tir a chaffael.

Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lefelau allyriadau carbon wedi eu hisrannu i lefelau Awdurdod Lleol, a Galwad am Dystiolaeth i archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer gwireddu sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Byddaf yn cynnal digwyddiad ar yn 9fed Tachwedd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru: i archwilio sut mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n medru ennyn ymgyfraniad pobl mewn cydweithio ac integreiddio eu gwaith, i dalu mwy o sylw i oblygiadau carbon hirdymor eu gweithrediadau, a helpu i atal effeithiau'r newid yn yr hinsawdd rhag gwaethygu.

Gofynnaf i chi ddangos ystyriaeth o effeithiau hirdymor digwyddiadau tywydd eithafol a fydd yn cyflwyno peryglon arbennig i'ch ardal. Rwy'n eich annog i ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd ar Flaenau Gwent, fel ardal â chwe ardal gymunedol mewn perygl o lifogydd, ac effeithiau niweidiol a nodwyd ar ansawdd dŵr mewn tywydd eithafol. Effeithiodd llifogydd ar gartrefi a busnesau llynedd mewn nifer o siroedd ac mae asesiadau llesiant yn dangos fel mae llifogydd yn effeithio ar lesiant. Mae'r niwed blynyddol a ddisgwylir ar hyn o bryd i eiddo preswyl yng Nghymru yn £22 miliwn, felly mae deall sut mae gwahanol ddigwyddiadau tywydd yn effeithio ar gymunedau'n hollbwysig ar gyfer ei atal.

Mae llawer o bobl ym Mlaenau Gwent yn dibynnu ar yr amgylchedd am incwm, bwyd, dŵr a hamdden. Yn y dyfodol, mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o achosi sychder yn yr haf sy'n golygu prinder dŵr, bioamrywiaeth sy'n dirywio ac sy'n effeithio wedi hynny ar amaeth. Sut ydych chi'n ystyried effaith posibl economaidd hinsawdd sy'n newid? Os yr ydych yn bwriadu ceisio defnyddio eich adnoddau naturiol ar gyfer creu manteision economaidd, sut ydych chi wedi ystyried effaith hirdymor digwyddiadau eithafol hirdymor ar yr adnoddau hyn? Sut fedrwch chi ddefnyddio senarios i ddychmygu pa weithredu ataliol y gallech ei ddefnyddio i warchod amaeth, cyflenwadau dŵr a thrawsgludo mewn digwyddiad tywydd eithafol?

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Yn unol â'ch amcan drafft o fabwysiadu newid traws-sector yn eich gwaith fel BGC, dylech hefyd fod yn ystyried eich rolau chi eich hunain fel sefydliadau wrth ddatblygu cydnerthedd a dod yn fwy cyfrifol yn fyd-eang. Mae'r DU wedi addo y byddir yn gwaredu allyriadau carbon yn gyfangwbl erbyn 2050 ac mae pob un o Lywodraethau Cymru wedi addo creu rhagor o swyddi gwyrdd. Ond er bod Cymru yn fan â photensial enfawr ar gyfer darparu ynni naturiol, dim ond 10% o drydan Cymru yn 2013 a ddarparwyd drwy ynni naturiol. Llynedd, cynhyrchodd Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cymru'r adroddiad 'Dyfodol Ynni Craffach i Gymru' gyda 19 argymhelliad ar y modd y gallai Cymru drawsnewid ei hymagwedd tuag at ynni. Yn fwy diweddar, mae Ynni Clyfar y DU wedi cynhyrchu'r adroddiad 'A Smart Energy Future for Rural Areas' sy'n rhoi enghreifftiau ac astudiaethau achos o ardaloedd gwledig ar draws y DU sydd wrthi'n cyflawni'r trawsnewid hwnnw. Efallai y gall seminar Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Ddysgedig Cymru roi i chi fewnwelediadau arbenigwyr ynni yng Nghymru ac y bydd eu syniadau am ddyfodol ynni adnewyddadwy yng Nghymru yn ddefnyddiol i chi. Mae prif seminar Fforwm Polisi Cymru i'w chynnal ar 7fed Rhagfyr eleni, gyda ffocws ar flaenoriaethau ar gyfer polisi ynni, tyfu'r sector yng Nghymru a chynyddu buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy.

Mae BGCau eraill sy'n ymroi i amddiffyn eu hamgylchedd ac ymgymryd â gwaith pellach i ddeall y risgiau i'w cymunedau yn cynnwys Blaenau Gwent, Bro Morgannwg, Powys, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

**Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.**

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a macsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthych chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Blaenau Gwent ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,

Sophie Howe

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales